# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-18-08)

**SLC177**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen ar gyfer disgyblion yng Nghymru fesul cam. Cyflwynir y cyfnod sylfaen ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008, ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2009, ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen  ar 1 Awst 2010 ac ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2011. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn pennu cyfnod y cyfnod sylfaen ac yn rhoi effaith gyfreithiol i'r meysydd dysgu, sy'n gosod y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol.

### Gweithdrefn: Negyddol

### Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

1. Mae testun Cymraeg yn erthygl 3(1) yn ddiffygiol. Diben y testun yw rhoi effaith i ddarpariaethau sy'n pennu'r meysydd dysgu, y canlyniadau dymunol a'r rhaglenni addysgol ar gyfer y cyfnod sylfaen. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw geiriad y testun Cymraeg yn cyflawni'i amcan, ac nid yw'n cyfateb yn union i'r testun Saesneg, oherwydd hepgor geiriad hanfodol bwysig ar ddechrau'r erthygl. Gellid goresgyn y broblem hon drwy roi "Mae'r" yn lle "Y" ar ddechrau pob erthygl. Argymhellir bod y diffyg hwn yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl.

[Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii]

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Gorffennaf 2008

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r pwynt adrodd a bydd yn gwneud deddfwriaeth ddiwygio er mwyn cywiro'r gwall o fewn 6 mis i ddyddiad cychwyn y Rheoliadau**.**